

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL: 36/2018

DYDDIAD CYHOEDDI: 27/06/2018

GWERTHUSIAD O GYMUNEDAU AM WAITH

Cam 3: Adroddiad ar Ganlyniadau ac Effeithiau sy'n dod i'r Amlwg Crynodeb

1. Cyflwyniad

- 1.1 Ym mis Medi 2016, penododd Llywodraeth Cymru (LIC) OB3, Dateb, yr Uned Pobl a Gwaith a'r Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth i gyflawni gwerthusiad o'r fenter Cymunedau am Waith (CaW).
- 1.2 Nod CaW yw ymateb i Gynllun Gweithredu Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru 2013 trwy gynorthwyo pobl sydd wedi bod yn ddi-waith yn y tymor hir, oedolion economaidd anweithgar a phobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET) er mwyn cynyddu eu cyflogadwyedd a'u symud i mewn i gyflogaeth neu'n agosach at y byd gwaith. Dros gyfnod o bum mlynedd hyd 2020, nod CaW yw cynorthwyo 47,500 o bobl mewn 52 ardal, sy'n cynrychioli 10 y cant o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru, i mewn i waith. Ariennir CaW ar y cyd gan LIC, yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) a Chronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF).
- 1.3 Darparir CaW ar lefel leol gan dimau o fentoriaid ieuenctid ac oedolion arbenigol, cynghorwyr cyflogaeth a gweithwyr cymorth brysbennu, sydd oll yn gweithio mewn canolfannau yn y gymuned. Mae'r Mentoriaid a'r cynghorwyr yn ymdrechu i gysylltu cyfranogwyr er mwyn deall y ffactorau sy'n eu rhwystro rhag gweithio, ac er mwyn cytuno ar gynlluniau gweithredu personol sy'n seiliedig ar eu hanghenion unigol. Mae'r cyfranogwyr wedyn yn cael cefnogaeth i gyrchu cymorth perthnasol, hyfforddiant, gweithgareddau chwilio am waith, a chyfleoedd am brofiad gwaith.

2. Nodau a methodoleg y gwaith ymchwil

- 2.1 Tair nod y gwerthusiad oedd:
 - egluro'r theori newid ar gyfer CaW a datblygu'r model rhesymeg sydd wrth wraidd y rhaglen
 - asesu sut mae'r rhaglen wedi cael ei sefydlu a sut mae'n cael ei gweithredu
 - rhoi syniad o effeithiolrwydd cyffredinol y rhaglen.
- 2.2 Cyflawnwyd y gwerthusiad mewn tri cham rhwng Hydref 2016 a Chwefror 2018. Dechreuodd y gwaith gydag esboniad o theori newid a model rhesymeg menter CaW, a dyma oedd sail adroddiad Rhan 1 a gyhoeddwyd ym Mawrth 2017. Roedd adroddiad cam 2, a gyhoeddwyd

yn Rhagfyr 2017, yn defnyddio'r theori newid i asesu sut y sefydlwyd y rhaglen a sut yr oedd yn cael ei gweithredu. Mae'r trydydd adroddiad hwn, sef yr olaf, yn archwilio'r cynnydd a wnaed yn erbyn y targedau, ac effaith CaW ar y cyfranogwyr.

2.3 Roedd y gwaith ymchwil a arweiniodd at gynhyrchu adroddiad Rhan 3 yn cynnwys:

- cyflawni adolygiad o ddogfennaeth y rhaglen ac adroddiadau ymchwil ar ymyraethau cyflogadwyedd tebyg
- dadansoddi'r gronfa ddata o gyfranogwyr CaW ar ôl ei diweddarau yn Ionawr 2018.
- cyfweld â rhanddeiliaid strategol a rheolwyr gweithredol â throsolwg o CaW
- cyflawni pecyn o waith maes ansoddol mewn 10 o'r 52 ardal posibl. O fewn pob ardal a ddewiswyd, roedd y gwaith maes a gyflawnwyd yn cynnwys:
 - cyfweld â'r rheolwyr sydd ynghlwm wrth ddarparu'r rhaglen
 - cyfweld â staff y rheng flaen sy'n darparu'r rhaglen
 - cynnal trafodaethau â 70 o gyn-gyfranogwyr a chyfranogwyr cyfredol a gafodd eu dethol yn fwriadol i sicrhau bod yna or-gynrychiolaeth o unigolion a oedd wedi cyflawni deilliannau swyddi neu ganolradd
 - adolygu portffolios 60 o'r cyfranogwyr a gyfwelwyd
 - cymharu'r dystiolaeth a gasglwyd gan y gwahanol unigolion a gyfwelwyd a'r portffolios a adolygwyd
- drafftio adroddiad ar Ganlyniadau ac Effeithiau sy'n dod i'r Amlwg.

2.4 Adeg cychwyn y gwaith ymchwil yn wreiddiol, rhagwelwyd y byddai data o Arolwg o Gyfranogwyr yr ESF ar gael i fwydo'r rhan yma o'r gwerthusiad. Fodd bynnag, oherwydd oedi wrth lansio'r Arolwg, nid oedd y data ar gael mewn pryd, ac felly, roedd angen addasu'r dull o fynd ati i gyflawni'r cam olaf yma yn y gwerthusiad rhyw ychydig er mwyn casglu'r math o ddata y bwriadwyd y byddai'r Arolwg o Gyfranogwyr yr ESF yn ei ddarparu. Er na all data a gasglwyd yn y modd yma gymryd lle data arolwg (yn nhermau sylwedd, cwmipas na dibynadwyedd), fe'i defnyddiwyd i helpu i glustnodi a delweddu'r themâu a drafodir yn yr Adroddiad ar Ganlyniadau ac Effeithiau sy'n dod i'r Amlwg.

3. Y canfyddiadau allweddol

Datblygiadau i CaW ers y Gwerthusiad Prosesau Cam 2.

- 3.1 Mae CaW wedi datblygu ac wedi aeddfedu ers cyhoeddi Adroddiad Gwerthuso Prosesau Cam 2. Yn benodol:
- Mae'r ddogfen Canllawiau Gweithredol ddiwygiedig, a gyhoeddwyd yn Hydref 2017, yn fwy cynhwysfawr o lawer na'r fersiwn flaenorol, ac mae'n darparu mwy o eglurder mewn nifer o feysydd allweddol. Croesawyd y ddogfen ddiwygiedig yn wresog gan staff y rheng flaen sy'n darparu'r rhaglen.
 - Roedd staff cyflawni'r rheng flaen yn croesawu cyflwyniad offeryn asesu anghenion safonedig i'w ddefnyddio gyda'r cyfranogwyr.
 - Mae'n ymddangos bod pwyslais Llywodraeth Cymru ar dargedau tîm ac ar dynnu ymarferwyr ynghyd i rannu profiadau ac arferion da wedi arwain at well integreiddiad o fewn timau cyflawni'r rheng flaen.
 - Mae cyflwyniad system archebu electronig (EBS), sy'n caniatáu i staff y rheng flaen weld y mathau o gyrsiau hyfforddi sydd ar gael, bwcio cyfranogwyr ar ddarpariaeth

benodol, a gweld cynnydd y cyfranogwyr neu'r cymwysterau y maent wedi eu cyflawni, wedi bod yn gam aruthrol ymlaen.

- Gwelwyd cynnydd yn y nifer o bobl sy'n ymgymryd â hyfforddiant sy'n cael ei gaffael a'i reoli'n ganolog. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth yn fratiog o hyd, ac mae'r darparwydd a gafaeliwyd yn parhau i weithio gyda rheolwyr a thimau rheng flaen CaW i ddod o hyd i ffyrdd o gynnig darpariaeth hyfforddi hyfyw ar draws Cymru gyfan.
- Mae pryderon nifer fawr o staff CaW ynghylch gau'r rhaglen CG i'w weld wedi cael eu lleddfu gan y trefniadau newydd a sefydlwyd heb darfu rhyw lawer ar CaW.
- Oherwydd y niferoedd cynyddol o unigolion sy'n cymryd rhan yn CaW ac yn cyflawni deilliannau, mae'n bosibl nad Excel yw'r feddalwedd fwyaf priodol i'w defnyddio i gadw cronfa ddata'r rhaglen mwyach.

Perfformiad y Rhaglen Hyd yn Hyn - Cysylltiadau

- 3.2 Erbyn Hydref 2017, roedd dros 12,000 o unigolion wedi cysylltu â CaW ers lansio'r rhaglen ym Mai 2015, a oedd yn cynnwys dros 2,500 yn Nwyrain Cymru a dros 9,500 yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd.
- 3.3 Roedd niferoedd cyffredinol y cyfranogwyr Blaenoriaeth 1 (economaidd anweithgar a di-waith tymor hir) gyfwerth ag 86 y cant o'r niferoedd a broffiliwyd erbyn Hydref 2017, ac roedd y cysylltiadau ymysg cyfranogwyr Blaenoriaeth 3 (pobl ifanc sy'n NEET) yn arbennig o galonogol, ar lefel o 141 y cant o'r niferoedd a broffiliwyd.
- 3.4 Ar draws yr holl grwpiau o gyfranogwyr, roedd perfformiad yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd ychydig bach yn gadarnach nag yn Nwyrain Cymru.
- 3.5 Fodd bynnag, mae'r proffiliau a bennwyd yn rhagdybio y bydd yna gynnydd mawr mewn cysylltiadau rhwng canol 2017 a diwedd y rhaglen yn 2020, ac roedd nifer y cyfranogwyr Blaenoriaeth 1 a gysylltwyd erbyn Hydref 2017 dipyn yn brin o'r niferoedd yr oedd eu hangen i gyflawni targedau cysylltu cyffredinol y rhaglen. Yn gyferbyniol, roedd cysylltiadau Blaenoriaeth 3 yn rhagori ar y niferoedd yr oedd eu hangen i gyflawni targedau 2020.
- 3.6 Er bod y niferoedd o ran pobl ddi-waith tymor hir ac economaidd anweithgar sy'n cysylltu â'r rhaglen yn amlwg ar ei hôl hi o ran ble mae angen iddynt fod er mwyn cyflawni targedau'r rhaglen ar gyfer 2020, mae yna le i fod yn optimistaidd y bydd cysylltiadau'n cynyddu, ac y bydd hyn yn mynd rhywfaint o'r ffordd i gau'r blwch â thargedau diwedd y rhaglen.
- 3.7 Gwelwyd amrywiad sylweddol mewn cysylltiadau rhwng ardaloedd CaW, er nad oedd modd clustnodi'n bendant pam fod perfformiad mewn rhai ardaloedd yn gadarnach nag eraill. Roedd hi'n debyg bod y ffactorau sy'n gysylltiedig â pherfformiad cadarn yn cynnwys: timau cyflawni rheng flaen sy'n fedrus a phrofiadol ac sydd â chysylltiadau da; perthnasau ffafriol rhwng aelodau o'r timau sy'n darparu CaW; cysylltiadau cadarn â sefydliadau partner a'r gallu i ddefnyddio cyfleusterau addas yn y gymuned; a'r ffaith fod y rhaglen wedi cael amser i fwrw gwreiddiau yn yr ardaloedd o dan sylw.
- 3.8 Yn nhermau llwyddiant CaW wrth estyn allan at grwpiau penodol o'r boblogaeth:
 - Mae'r cydbwysedd o ddynion a menywod sy'n cysylltu â CaW yn adlewyrchu'r boblogaeth ar led i bob pwrpas, er bod menywod yn cynrychioli cyfran ychydig bach yn uwch o gyfranogwyr Blaenoriaeth 1 na dynion (sydd, o bosibl yn adlewyrchu llwyddiant CaW wrth gysylltu mamau economaidd anweithgar y mae eu plant yn nesáu at oedran ysgol), ac mae dynion yn cynrychioli cyfran uwch o gyfranogwyr Blaenoriaeth 3 na menywod.
 - Mae pobl dros 54 oed yn cynrychioli cyfran lai o gyfranogwyr nag y gellid ei ddisgwyl.

- Nid oes gan fwyafrif mawr o'r cyfranogwyr unrhyw sgiliau neu nid oes fawr o sgiliau ganddynt.
- Mae'r gyfran o gyfranogwyr sydd â salwch sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio'n uwch na'r boblogaeth ar led, ond nid yw'r gwahaniaeth mor fawr ag y gellid ei ddisgwyl o ystyried bod ffocws CaW ar unigolion economaidd anweithgar.
- Mae'r gyfran o gyfranogwyr sy'n dod o grwpiau o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn uwch na'r boblogaeth ar led yn Nwyrain Cymru, ond mae hi ychydig bach yn is yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd.

Rhwystrau, Dyheadau, Cymhelliant a Chefnogaeth y Cyfranogwyr

- 3.9 Mae'r rhwystrau i waith y mae cyfranogwyr yn eu hwynebu'n amrywio'n sylweddol ac maent yn aml yn lluosog ac yn gyd-gysylltiedig. Roedd y rhwystrau yr oedd pobl yn eu hwynebu yn cynnwys rhwystrau ymarferol iawn (o ran 'sefyllfa' neu 'anuniongyrchol') fel cyfrifoldebau gofalu (gofal plant i'r mwyafrif llethol), diffyg cludiant i gyrraedd y gwaith, diffyg cymwysterau neu sgiliau gwaith, a salwch sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio. Roedd y rhwystrau uniongyrchol yn cynnwys lefelau isel hunanhyder a phroblemau iechyd meddwl, ac yn fwyaf cyffredin teimladau o orbryder a/neu iselder.
- 3.10 Roedd lefelau cymhelliant i ddod o hyd i waith yn amrywio o un cyfranogwr i'r llall, ac roedd eu cymhelliant yn aml yn gysylltiedig â'r rhwystrau a oedd yn eu hwynebu, a pha mor rhwydd yr oedd modd goresgyn y rhain. Mae CaW yn gallu helpu cyfranogwyr i oresgyn rhai rhwystrau yn haws nag eraill, er enghraifft trwy dalu costau hyfforddiant, neu ddarparu'r offer sydd ei angen i gyflawni swyddi penodol. Er mwyn goresgyn rhwystrau uniongyrchol nodweddiadol eraill, rhaid i'r cyfranogwyr ddeall natur y rhwystrau sy'n eu hwynebu a dangos ymroddiad sylweddol i'w goresgyn, a hynny weithiau dros gyfnod estynedig.
- 3.11 Er bod yna enghreifftiau o gyfranogwyr yn goresgyn rhwystrau cymhleth o ganlyniad i'w cysylltiad â CaW, mae'r cymorth y mae'r cyfranogwyr yn ei gael amlaf yn troi o gylch eu cynorthwyo i lunio CVs a chyflawni gweithgareddau chwilio am waith, sy'n awgrymu bod y rhaglen wedi bod ar ei mwyaf llwyddiannus wrth estyn allan at gyfranogwyr sy'n gymharol barod ar gyfer y byd gwaith, ond nad yw hi wedi mynd i'r afael â'r rhwystrau mwy cymhleth neu ddwfn i gyflogaeth hyd yn hyn.
- 3.12 Un o nodweddion allweddol CaW yw'r amser sydd ar gael i gynghorwyr/mentoriaid weithio gyda chyfranogwyr unigol i ddeall y rhwystrau sy'n eu hwynebu, eu dyheadau a'u cymhelliant, ac i deilwra'r cymorth a ddarperir yn ôl yr angen. Gwelwyd yr amser a oedd ar gael a hyblygrwydd y cymorth y mae CaW yn ei ddarparu fel mantais glir dros ddarpariaeth gyflogadwyedd y brif ffrwd, ac roedd hi'n glir bod y cyfranogwyr yn ymddiried yn y cynghorwyr/mentoriaid ac yn eu parchu.
- 3.13 Mae hyfforddiant yn nodwedd bwysig o CaW hefyd, gyda'r cyfranogwyr yn dilyn cyrsiau byr sy'n darparu achrediad sylfaenol sy'n berthnasol i amrywiaeth o weithleoedd. Roedd hyfforddiant a oedd yn galluogi'r cyfranogwyr i ddiogelu'r trwyddedau angenrheidiol i weithio mewn rhai diwydiannau'n gam hanfodol i rai ar y llwybr i gyflogaeth.
- 3.14 Cyflawnodd rhai cyfranogwyr leoliadau gwirfoddoli neu brofiad gwaith, ar y cyfan mewn meysydd a oedd yn uniongyrchol gysylltiedig â'r mathau o swyddi yr oeddent yn dyheu i'w cyflawni. Gwelwyd lleoliadau gwaith/gwirfoddoli fel ffordd o ddatblygu sgiliau penodol, magu hyder unigolion a dangos gallu a dibynadwyedd. Fodd bynnag, roedd rhai cyfranogwyr yn gyndyn i gyflawni profiad gwaith/gwaith gwirfoddol digyflog.
- 3.15 Gwelwyd llai o ddefnydd o'r gronfa rwystrau neu gymorth gofal plant nag a ragwelwyd.

Perfformiad y Rhaglen Hyd yn Hyn - Deilliannau

- 3.16 Ers lansio'r rhaglen, mae cyfanswm o 3,467 o unigolion wedi symud i mewn i waith ar ôl cysylltu â CaW, 742 ohonynt yn Nwyrain Cymru a 2,725 yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd.
- 3.17 Drwyddi draw, roedd cyflawniadau o ran deilliannau swyddi mewn perthynas â chyfranogwyr Blaenoriaeth 1 (economaidd anweithgar a di-waith tymor hir) ar lefel o 98 y cant o'r ffigurau a broffiliwyd, er bod y perfformiad mewn perthynas â chyfranogwyr economaidd anweithgar ychydig bach yn gadarnach nag ar gyfer cyfranogwyr di-waith tymor hir. Roedd cyflawniad o ran deilliannau swyddi'n arbennig o galonogol ymysg cyfranogwyr Blaenoriaeth 3 (pobl ifanc sy'n NEET), gyda'r cyflawniad cyffredinol ar lefel o 192 y cant o'r lefel a broffiliwyd.
- 3.18 Ar draws yr holl grwpiau o gyfranogwyr, roedd perfformiad o ran deilliannau swyddi o gymharu â'r proffiliau ychydig bach yn gadarnach yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd nac yn Nwyrain Cymru.
- 3.19 Fel yn achos cysylltiadau, fodd bynnag, mae'r proffiliau a bennwyd yn rhagdybio y gwelir cynnydd mawr mewn deilliannau swyddi rhwng canol 2017 a diwedd y rhaglen yn 2020, ac roedd niferoedd cyffredinol y cyfranogwyr Blaenoriaeth 1 a oedd wedi symud i mewn i waith erbyn Hydref 2017 dipyn yn brin o'r niferoedd oedd eu hangen er mwyn cyflawni targedau cyffredinol y rhaglen o ran deilliannau swyddi. Yn gyferbyniol, roedd deilliannau swyddi Blaenoriaeth 3 yn rhagori ar y niferoedd yr oedd eu hangen i gyflawni targedau 2020.
- 3.20 Gellir priodoli'r diffyg yn erbyn y targed o ran deilliannau swyddi ym Mlaenoriaeth 1 i raddau helaeth i'r perfformiad gwannach na'r gobaith wrth gysylltu cyfranogwyr Blaenoriaeth 1. Fodd bynnag, mae hyn wedi cael ei wrthbwysu i raddau helaeth gan 'gyfradd drosi' sy'n uwch na'r disgwyl, yn arbennig ymysg y cyfranogwyr economaidd anweithgar. Mae'r gyfradd drosi a gyflawnwyd hyd yn hyn yn cymharu'n ffafriol hefyd â pherfformiad ar draws prosiectau cyflogadwyedd a ariannwyd o dan raglenni ESF yng Nghymru rhwng 2007 a 2014, sy'n awgrymu bod CaW yn effeithiol wrth fynd i'r afael â rhwystrau i gyflogaeth.
- 3.21 Mae perfformiad hyd yn hyn yn awgrymu y bydd CaW yn rhagori ar ei dargedau o ran deilliannau swyddi Blaenoriaeth 3 o bell ffordd, ond y bydd yn disgyn dipyn yn brin o'i dargedau o ran deilliannau swyddi Blaenoriaeth 1. Wedi dweud hynny, mae yna le i fod yn optimistaidd y bydd y deilliannau swyddi ar gyfer cyfranogwyr Blaenoriaeth 1 yn parhau i wella, ac y byddant yn mynd rhywfaint o'r ffordd i gau'r bwlch â thargedau diwedd y rhaglen.
- 3.22 Yn yr un modd â chysylltiadau, mae perfformiad o ran deilliannau swyddi'n amrywio'n sylweddol o un ardal CaW i'r llall. Eto, nid oedd modd clustnodi'n bendant pam y dylai perfformiad mewn rhai ardaloedd fod yn gadarnach nag eraill. Roedd hi'n ymddangos bod y ffactorau a oedd yn gysylltiedig â pherfformiad cadarn yn cynnwys: perfformiad cadarn mewn perthynas â chysylltiadau; amodau ffafriol yn y farchnad lafur leol; staff medrus a phrofiadol a oedd wedi bod yn eu swyddi'n ddigon hir i ganiatáu i gysylltiadau gael eu trosi'n ddeilliannau; gwaith tîm effeithiol yn y rheng flaen; partneriaethau cadarn â'r system gymorth ehangach; a darpariaeth hyfforddiant berthnasol a hygyrch.
- 3.23 Drwyddi draw, roedd y cyfranogwyr a oedd wedi bod mewn cysylltiad â CaW am dri mis neu lai yn fwy tebygol o fod wedi symud i mewn i waith na'r unigolion a arhosodd ar y rhaglen am gyfnod hwy. Gellir priodoli hyn yn rhannol i'r ffaith fod y cynghorwyr (y bwriadwyd iddynt weithio gydag unigolion yr ystyriwyd eu bod llai na 12 mis i ffwrdd o gyflogaeth) wedi cael eu penodi ychydig cyn y mentoriaid (y bwriadwyd iddynt weithio gydag unigolion a oedd 12 mis neu ragor i ffwrdd i gyflogaeth). Fodd bynnag, gallai awgrymu hefyd bod CaW yn cysylltu o leiaf rhai unigolion a fyddai'n gallu symud i mewn i waith gyda llai o gymorth, ac a allai gael eu gwasanaethu gan ffynonellau'r brif ffrwd.

- 3.24 Er y derbynnir ei bod hi'n anochel y bydd yna elfen o ddifrwythedd ynghlwm ag unrhyw raglen o'r natur yma, mae'r ddifrwythedd sy'n gysylltiedig â CaW wedi bod yn fach iawn oherwydd natur y grŵp o gleientiaid a dargedir.
- 3.25 Roedd y gyfran a oedd yn symud i mewn i swyddi'n drech na lefel meincnod y rhaglen ar draws bron pob grŵp targed o gyfranogwyr, a hynny o dipyn mewn ambell i achos. Islaw'r lefel pennawd yma:
- Symudodd cyfran ychydig bach yn uwch o ddynion na menywod i mewn i gyflogaeth wrth ymadael â CaW.
 - Symudodd cyfran nodedig o uwch o gyfranogwyr dros 55 oed i mewn i swyddi yn Nwyrain Cymru nac yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd.
 - Cyflawnodd cyfran uwch na'r disgwyl o gyfranogwyr heb unrhyw gymwysterau neu â lefel isel o gymwysterau deilliannau swyddi. Fodd bynnag, y cyfranogwyr â chymwysterau lefel 3 neu'n uwch oedd fwyaf tebygol o symud i mewn i waith, a'r rhai heb unrhyw gymwysterau o gwbl oedd lleiaf tebygol o wneud hynny.
 - Er bod y niferoedd yn isel drwyddi draw, roedd y gyfran o gyfranogwyr o grwpiau o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a symudodd i mewn i gyflogaeth yn sylweddol uwch na'r meincnodau a bennwyd.
 - Roedd y deilliannau swyddi ar eu gwannaf ymysg y cyfranogwyr â salwch sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio.
- 3.26 Yn niffyg data'r Arolwg o Gyfranogwyr yr ESF, nid oes modd i ni ddweud dim yn bendant am ansawdd na chynaliadwyedd y swyddi y mae'r cyfranogwyr yn symud i mewn iddynt. Fodd bynnag, byddai ein gwaith maes ansoddol yn awgrymu bod y rhai sydd wedi symud i mewn i gyflogaeth yn fodlon ar eu swyddi, ac i raddfa ychydig bach llai, â lefel eu hincwm ers dechrau gwaith. Fodd bynnag, byddai ein gwaith maes yn awgrymu bod y cyfranogwyr, ar y cyfan, yn symud i mewn i swyddi â chyflogau isel a sydd weithiau'n ansicr eu natur, sy'n codi pryderon am gynaliadwyedd tymor hwy rhai deilliannau swyddi, yn arbennig lle bo rhwystrau eraill i gyflogaeth.
- 3.27 Dadleuwyd o blaid elfen o gymorth mewn gwaith lle bo angen hynny er mwyn cynnal deilliannau swyddi.
- 3.28 Erbyn Hydref 2017, nifer gymharol fechan o'r bobl a oedd yn ymadael â'r rhaglen a oedd wedi ennill cymwysterau. Gallai'r lefel gymharol isel yma o berfformiad fod am fod deilliannau o ran cymwysterau wedi cael eu priodoli i raglenni eraill yn nyddiau cynnar CaW, ac oherwydd oedi wrth ddarparu a chofnodi'r cymwysterau. Er ei bod hi'n bosibl y bydd y rhaglen yn adennill rhywfaint o dir wrth iddi aeddfedu, mae'n rhaid bod yna o leiaf elfen o amheuaeth am y tebygolrwydd y bydd CaW yn cyflawni ei darged o ran deilliannau cymwysterau yn 2020.
- 3.29 Mae perfformiad mewn perthynas â'r targedau datblygu i mewn addysg neu hyfforddiant ar gyfer Blaenoriaeth 3 hefyd wedi bod yn gymharol isel, ac eto, mae hi'n ymddangos yn annhebygol y cyflawnir y targed cyffredinol erbyn diwedd y rhaglen.
- 3.30 Er na ellir ystyried bod ein gwaith maes ansoddol gyda chyfranogwyr yn ystadegol gadarn, mae'n awgrymu y caiff CaW effeithiau cadarnhaol ar agweddau'r cyfranogwyr at ddod o hyd i waith neu eu dull o fynd ati. Mae'n awgrymu hefyd fod CaW yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau ehangach ar fywydau'r cyfranogwyr, ac agwedd bwysig yn hynny o beth yw eu gwytnwch i ddelio â'r rhwystrau i waith yr oeddent yn eu hwynebu.

Costau'r Rhaglen a Gwerth am Arian

- 3.31 Roedd costau'r rhaglen hyd Hydref 2017 dipyn yn brin o'r costau y gellid eu disgwyl ar y cam yna yn oes y rhaglen, a hynny'n bennaf am ei bod wedi cymryd mwy o amser i sefydlu CaW nag y disgwyliwyd yn wreiddiol. Mae hi'n debygol y bydd costau'n cynyddu'n gynt wrth i'r rhaglen gael ei chyflwyno'n llwyr.
- 3.32 Am fod CaW yn dal i fod yn weithredol, nid yw'r gwerthusiad hwn yn cynnig unrhyw ddadansoddiad o'r enillion ar y buddsoddiad y mae'r rhaglen yn eu darparu. Fodd bynnag, mae'n cynnig darlun cynnar o'r gwerth y mae CaW yn ei gynrychioli trwy gymharu costau'r dangosyddion allweddol o ran allbwn a deilliannau â'r rhai a gynlluniwyd, ac â'r rhai sy'n gysylltiedig ag ymyraethau eraill o ran cyflogaeth/cyflogadwyedd.
- 3.33 Ar y pwynt yma yn oes y rhaglen, mae'r costau fesul cyfranogwr Blaenoriaeth 1 rhywfaint yn uwch na'r costau meincnod a ymhlygwyd yn y cynlluniau busnes. Gellir priodoli'r costau uwch fesul cyfranogwr i'r ffaith fod cysylltiadau hyd yn hyn wedi bod ymhellach y tu ôl i dargedau cyffredinol y rhaglen nag y mae'r costau hyd yn hyn y tu ôl i gyllideb y rhaglen. Gellir disgwyl i'r costau fesul cyfranogwr agosáu at y disgwyliadau wrth i recriwtio fagu momentwm, ac wrth i gostau gweithredu'r rhaglen gael eu hamsugno dros amser.
- 3.34 Mae'r gost fesul cyfranogwr Blaenoriaeth 3 eisoes yn is na'r gost meincnod, a hynny diolch yn rhannol i berfformiad cadarnach o lawer yn nhermau cysylltiadau Blaenoriaeth 3 ar draws Dwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd.
- 3.35 Roedd y gost fesul deiliant mewn perthynas â Blaenoriaeth 1 yn gyson iawn â meincnodau cynllun busnes 2020, a oedd, yn eu tro, yn gyson â'r deilliannau cost fesul deiliant swydd cyfartalog ar draws yr ymyraethau cyflogadwyedd oedolion a ariannwyd gan yr ESF yng Nghymru yn ystod cyfnod rhaglennu 2007-13.
- 3.36 Roedd y gost fesul deiliant swydd Blaenoriaeth 3 yn sylweddol is na'r meincnodau a ymhlygwyd yn y cynlluniau busnes. Gellir priodoli hyn i'r perfformiad cadarn o ran deilliannau swyddi Blaenoriaeth 3 ar draws y ddau ranbarth, a oedd yn golygu bod y gymhareb costau staff i ddeilliannau swyddi'n is na'r disgwyl.

Argymhellion

- 3.37 Daw'r adroddiad i ben trwy gyflwyno naw o argymhellion mewn perthynas â:
- 1 Monitro cysylltiadau parhaus er mwyn sicrhau y cymerir camau cynnar os na fydd cyfradd y cysylltiadau'n cynyddu yn ôl y disgwyl.
 - 2 Cynyddu ffocws amser y cynghorwyr ar gyfranogwyr Blaenoriaeth 1 er mwyn sicrhau y cyflawnir y targedau cysylltu Blaenoriaeth 1.
 - 3 Mabwysiadu trefniadau cysgodi ar draws timau cyflawni'r rheng flaen er mwyn gwella perfformiad yn yr ardaloedd clwstwr lle mae perfformiad hyd yn hyn i'w gweld ar ei hôl hi.
 - 4 Sicrhau nad yw'r pwysau i gyflawni'r prif dargedau'n dod ar draul ymdrechion i dargedu cyfranogwyr sy'n 'anos eu cyrraedd' .
 - 5 Parhau i weithredu ar yr argymhellion a wnaed yn yr adroddiad Gwerthuso Prosesau, ac yn benodol yn nhermau cryfhau'r trefniadau ar gyfer gweithio gyda thimau CBC lleol a rhoi cynlluniau ar waith i gysylltu â ffynonellau cyfeirio eraill.
 - 6 Parhau i fonitro deilliannau er mwyn sicrhau y cymerir camau cynnar os nad yw cyfradd y deilliannau'n cynyddu yn ôl y disgwyl.

- 7 Sefydli cronfa ddata CaW i gymryd lle'r taenlenni sy'n bodoli ar hyn o bryd.
- 8 Trafod y posibilrwydd o ailbroffilio cyllidebau tua diwedd y rhaglen gyda WEFO.
- 9 Sicrhau bod CaW+ yn cael ei integreiddio'n llwyr â CaW er mwyn sicrhau bod y bobl hynny nad ydynt wedi cynnal eu deilliannau swyddi'n gallu ailgysylltu â chymorth.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Siân Williams

Yr Is-adran Cymunedau,

Llywodraeth Cymru, Parc Busnes Rhyd-y-Car

Merthyr, CF48 1UZ

E-bost: Sian.Williams50@llyw.cymru

OGL © Hawlfraint y Goron 2018 ISBN Digidol 978-1-78937-358-5